Polisi Bwlio ac Aflonyddu Dysgwyr

Paratowyd gan:	Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr		
Cymeradwywyd y polisi gan:	UDRh	15/10/13	Cofnod: 3347
	UDA	07/09/16	Cofnod: 3856
	Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd	11/11/2013 14/11/2016	Cofnod: 331 Cofnod: 420
	Y Gorfforaeth	08/07/2019	Rhif Agenda: 12
Asesu Effaith Cydraddoldeb	Awst2016		
Adolygwyd:	Awst 2016, Mawrth 2019		
Dyddiad Adolygu:	Ebrill 2022		

Cynnwys

Tudalen 3	Rhagymadrodd i'r polisi
Tudalen 4	1 - Cyflwyniad i'r polisi
Tudalen 4	2 - Cwmpas a Phwrpas y Polisi
Tudalen 5	3 - Beth yw bwlio ac aflonyddu
Tudalen 5	4 - Mathau o fwlio ac aflonyddu
Tudalen 6	5 - Beth i'w wneud os ydych chi'n cael eich bwlio neu'ch aflonyddu
Tudalen 6	6 - Beth fydd y Coleg yn ei wneud os ydych chi'n cael eich bwlio neu'ch aflonyddu
Tudalen 7	7 - Cefnogaeth
Tudalen 7	8 - Monitro ac Adolygu
Tudalen 7	9 - Hyrwyddo, Amrywiadau neu welliannau

Rhagymadrodd i’r Polisi

Cyfleoedd Cyfartal

Bydd y Coleg yn cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chyfleoedd cyfartal ym meysydd rhyw, hil, oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, trawsrywedd, crefydd, cred, beichiogrwydd, mamolaeth a thadolaeth, priodas a phartneriaeth sifil ac adsefydlu troseddwyr. Bydd y coleg hefyd yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 ac unrhyw ddeddfiadau neu addasiadau dilynol.

Cynaliadwyedd

Bydd y coleg yn cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau statudol mewn perthynas â datblygiad cynaliadwy trwy geisio gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor pobl a chymunedau. Mae angen i hyn gael ei wneud mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, cyfleoedd cyfartal ac sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol tra'n parchu ei derfynau.

Y Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg 2011 yn sicrhau statws cyfartal i'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg. Mae'r gyfraith hon wedi creu rôl Comisiynydd y Gymraeg ac wedi cyflwyno nifer o Safonau'r Gymraeg y mae'r Coleg o dan ddyletswydd statudol i gydymffurfio â hwy. Mae hyn yn cynnwys cynnal Asesiadau Effaith ar y Gymraeg ar gyfer pob polisi newydd a diwygiedig.

1. Cyflwyniad i’r Polisi

Mae'r Coleg wedi datblygu polisi Bwlio ac Aflonyddu Dysgwyr i egluro:

a. Bod bwlio ac aflonyddu yn annerbyniol

b. Y gweithdrefnau a ddefnyddir i ddelio ag ymddygiad annerbyniol

c. Y sancsiynau tebygol ar gyfer bwlio ac aflonyddu

ch. Y cyfrifoldebau cyfreithiol sydd gan y Coleg o ran bwlio ac aflonyddu

Mae angen y polisi hwn a'r gweithdrefnau cynorthwyol er mwyn hyrwyddo amgylchedd dysgu a gweithio iach, diogel a chynhyrchiol i bob dysgwr.

2. Cwmpas a phwrpas

a. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ac yn diffinio bwlio ac aflonyddu. Y bwriad yw rhoi gwybod i'r holl ddysgwyr am y math o ymddygiad sy'n annerbyniol. Hefyd, mae'n nodi'r canllawiau y dylid eu dilyn os profwyd fod bwlio ac aflonyddu wedi digwydd.

b. Pwrpas y polisi hwn yw hyrwyddo datblygiad amgylchedd dysgu lle gwyddys bod bwlio ac aflonyddu yn annerbyniol a lle mae gan unigolion yr hyder i gwyno am aflonyddu a bwlio, gan wybod y caiff eu pryderon eu trin yn briodol ac yn deg.

Mae polisi ar wahân ar Aflonyddu a Bwlio yn y Gwaith yn bodoli ar gyfer staff a gellir cael cyngor ar hyn gan adran Adnoddau Dynol y Coleg.

c. Gall torri'r polisi Bwlio ac Aflonyddu arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn dysgwr. Gall torri'r polisi mwy nag unwaith neu dorri'r polisi mewn modd difrifol iawn arwain at atal neu wahardd y dysgwr o'r Coleg. Mae'r Coleg hefyd yn ystyried eu cyfrifoldebau cyfreithiol os profwyd fod bwlio ac aflonyddu wedi digwydd.

ch. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl ddysgwyr y Coleg, boed yn llawn-amser neu'n rhan-amser, p'un a yw eu cwrs yn cael ei ddilysu gan unrhyw sefydliad arall, neu’n gysylltiedig â sefydliad arall, ac ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, boed hynny yn ystod tymor y Coleg ai peidio ac wrth ddefnyddio trafnidiaeth cartref i ysgol.

d. Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i faterion sy'n ymwneud â pherfformiad academaidd. Mae hwn yn destun gweithdrefn ar wahân.

Mae'r polisi hwn yn ystyried y cyfrifoldebau cyfreithiol dros atal bwlio ac aflonyddu a mynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu gan gynnwys;

Deddf Gorchymyn Cyhoeddus 1986, Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988, Deddf Plant 1989, Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997, Deddf Addysg 2001, Deddf

Cyfathrebiadau 2003, Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006, Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Gwarchod Rhyddid 2012. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.

3. Beth yw Bwlio ac Aflonyddu?

Mae bwlio ac aflonyddu yn ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, a ailadroddir dros amser, sy'n brifo unigolyn neu grŵp arall yn fwriadol naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol. Gall bwlio fod ar sawl ffurf (er enghraifft, seiber-fwlio trwy negeseuon testun neu'r rhyngrwyd), ac yn aml mae'n cael ei ysgogi gan ragfarn yn erbyn grwpiau penodol, er enghraifft ar sail hil, crefydd, rhyw, tueddfryd rhywiol, neu oherwydd bod plentyn wedi'i fabwysiadu neu â chyfrifoldebau gofalu. Gall gael ei ysgogi gan wahaniaethau gwirioneddol rhwng unigolion, neu wahaniaethau canfyddedig. (Yr Adran Dros Addysg 2012)

Mae bwlio ac aflonyddu yn cynnwys ymddygiad sy'n ceisio dychryn, rheoli, trin, bychanu, difrïo ar gam, neu sarhau rhywun arall. Mae'r gweithredoedd yn un weithred fwriadol, gweithredoedd niferus, a gweithredoedd gelyniaethus a fwriedir i niweidio eraill ac sydd â chanlyniadau i ddysgwyr a'r gymuned.

Gall hyn fod yn:

Gorfforol

Llafar

Anuniongyrchol

Aflonyddu rhywiol

Seiber-fwlio

Emosiynol

Ariannol

4. Mathau o Fwlio ac Aflonyddu

Corfforol: taro, cicio, dyrnu, cymryd eiddo, neu fod yn ymosodol

Ar lafar: galw enwau, sarhau, gwneud sylwadau tramgwyddus, dychryn.

Anuniongyrchol: lledaenu straeon cas am rywun, gwahardd rhywun o grwpiau cymdeithasol, gwneud rhywun yn destun sibrydion maleisus, anfon negeseuon maleisus drwy e-bost neu fel negeseuon testun ar ffonau symudol

Aflonyddu rhywiol: Gall aflonyddu gynnwys cynigion rhywiol digroeso neu annisgwyl, ceisiadau am ffafrau rhywiol, ac aflonyddu llafar neu gorfforol arall o natur rywiol.

Seiber-fwlio: - gweithredoedd sy'n defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gefnogi ymddygiad bwriadol, niferus a gelyniaethus gan unigolyn neu grŵp, sydd â'r nod o niweidio eraill. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gwasanaeth rhyngrwyd a thechnolegau symudol fel gwefannau a grwpiau trafod yn ogystal â negeseuon sydyn neu negeseuon testun SMS gyda'r bwriad o niweidio person arall.

Emosiynol - gweithredoedd fel rheoli ymddygiad, lledaenu celwyddau

Ariannol - gweithredoedd sy'n cynnwys rheolaeth ariannol a bygythiadau. e.e. cymryd lwfans cinio, cribddeilio arian.

5. Beth dylech wneud os ydych chi'n cael eich bwlio neu'ch aflonyddu

Lle bo modd, gwnewch yn glir i'r troseddwr bod yr ymddygiad yn dramgwyddus, cadwch gofnod o bob digwyddiad fel y mae'n digwydd a gofynnwch i dystion, os oes rhai, i'w nodi hefyd. Os hoffech wneud cwyn, ewch i'ch Tiwtor Cwrs neu unrhyw Reolwr o fewn eich Campws. Os ydych chi'n teimlo bygythiad corfforol ar unrhyw adeg, ewch at aelod o staff y Coleg. Yn anad dim, cadwch eich hun yn ddiogel.

6. Beth fydd y Coleg yn ei wneud os ydych chi'n cael eich bwlio neu'ch aflonyddu

Rhaid i'r Coleg allu dangos bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i atal bwlio ac aflonyddu neu i fynd i’r afael ag ef a bod mecanwaith ymateb effeithiol a sensitif yn bodoli i ymdopi ag unrhyw achosion sy'n digwydd.

Bydd y Coleg yn gwneud hyn trwy:

• Dyrannu'r cyfrifoldeb dros hyrwyddo; esbonio a gweithredu'r polisi i reolwr o fewn Gwasanaethau Dysgwyr

• Pwysleisio bod y polisi Bwlio ac Aflonyddu yn berthnasol nid yn unig yn adeiladau'r Coleg ond hefyd ym mhob gweithgaredd oddi ar y safle. Lle mae bwlio ac aflonyddu'n digwydd rhwng dysgwyr y Coleg oddi ar y safle ac wrth ymgymryd â gweithgaredd Coleg, gellir ei drin o dan Bolisi Disgyblu'r Coleg o hyd.

• Disgwyl bod pob aelod o staff a dysgwyr yn cydnabod eu bod yn gyfrifol am gefnogi'r polisi

• Rhoi gwybod i bob dysgwr am fodolaeth y polisi hwn yn ystod eu cyfnod sefydlu.

• Codi ymwybyddiaeth gyffredinol trwy diwtorialau a hyfforddiant staff a dysgwyr

• Ymchwilio i honiadau o fwlio neu aflonyddu ac os profir hynny, gosod y sancsiynau priodol a bennir ym mholisi Disgyblu'r Coleg.

7. Cefnogaeth

Gellir cael rhagor cyngor a gwybodaeth gan swyddogion lles a llesiant y coleg sydd wedi'u lleoli yn y Coleg.

Gall dioddefwyr bwlio gael cefnogaeth o amrywiaeth o ffynonellau. Mae hyn yn cynnwys asiantaethau lleol a chenedlaethol megis:

Childline 08001111 - http://www.childline.org.uk

Young minds - http://www.youngminds.org.uk

Bullying helpline - http://www.Bullying .co.uk

Cybermentors- http://www.cybermentors.org.uk

BeatBullying - http://www.beatbullying.org

Kidscape - http://www.kidscape.org.uk

Child Exploitation and Online Protection Centre (CEOP) - http://ceop.police.uk

NSPCC - http://www.nspcc.org.uk

National Bullying helpline - http://nationalbullyinghelpline.co.uk

Bullybusters: 0800 169 6928

8. Monitro ac Adolygu

Bydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dysgwyr yn monitro amlder ac achosion bwlio er mwyn asesu effeithiolrwydd y polisi.

9. Hyrwyddo

Bydd y Coleg yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i ddysgwyr am y Polisi trwy gyfrwng dulliau electronig, ar borth y dysgwr ("Bywyd Myfyriwr") ac ar wefan y Coleg..